OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2544

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

**Diwygio Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007**

**8.**—(1) Diwygir Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad o "datganiad addasrwydd plant", a

(ii) yn y diffiniad o "tystysgrif cofnod troseddol fanwl", ar ôl "1997", mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2)(**2**) o'r Ddeddf honno", a

(iii) yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Er mwyn gwneud gwiriad manwl o'r cofnodion troseddol, rhaid i berson wneud cais am, a chael, tystysgrif cofnod troseddol fanwl.".

(3) Ym mharagraff (ch) o reoliad 5, ar ôl "gwirio a", mewnosoder "yw wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**3**) neu'n".

(4) Yn rheoliad 13, hepgorer "bod datganiad addasrwydd plant wedi cael ei gyflwyno a".

(5) Yn is-baragraff (ii) o baragraff (b) o reoliad 17, hepgorer "bod datganiad addasrwydd plant wedi cael ei gyflwyno a".

(6) Ym mharagraff (ch) o reoliad 18, ar ôl "gwiriad i gadarnhau a", mewnosoder "yw wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 neu'n".

(7) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3 o Ran 1, yn lle "a yw'r person yn", rhodder "a yw'r person wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 neu'n", a

(b) ym mharagraff 2 o Ran 2—

(i) yn is-baragraff (b), yn lle "a yw'r person yn", rhodder "a yw'r person wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 neu'n", a

(**1**) O.S. 2007/2220 (Cy.175).
(**2**) Mewnosodwyd adran 113BA gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47), adran 63(1), Atodlen 9, Rhan 2, paragraff 14(1) a (4) ac fe'i diwygiwyd gan adran 170(2) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) a Deddf Addysg a Sgiliau 2008, adran 169, Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 12(a) a (b).
(**3**) 2006 p.47.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(ii) yn is-baragraff (dd)(ii), yn lle “wedi'i gwneud a bod datganiad addasrwydd plant wedi cael ei gyflwyno” rhodder “wedi ei wneud”.